



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

## SWYDD DDISGRIFIAD

<b>Teitl y Swydd:</b>	<b>Uwch Ddarlithydd mewn Plismona Proffesiynol</b>
<b>Lleoliad:</b>	<b>Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd</b>
<b>Lleoliad:</b>	<b>Campws Cyncoed, Caerdydd</b>
<b>Oriau:</b>	<b>37 awr yr wythnos</b>
<b>Deiliadaeth:</b>	<b>Parhaol</b>
<b>Gradd:</b>	<b>8AB</b>
<b>Cyflog:</b>	<b>£46,718 - £54,131 y flwyddyn</b>

*Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd y cydbwysedd dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.*

### **Crynodeb o'r Rôl:**

Mae hon yn swydd allweddol a fydd yn cyfrannu at uchelgeisiau Cynllun Strategol y Brifysgol 2017/18 – 2022/23.

Mae cyfle ar gael i ymgeisydd sydd â'r profiad addas i ddatblygu a chyfrannu at y gwaith o gyflwyno'r BA (Anrh) Plismona Proffesiynol newydd. Bydd yn ofynnol addysgu cwricwlwm plismona proffesiynol y Coleg Plismona. Mae'n bosibl y bydd angen cyfrannu at raglenni addysgu eraill yr ysgol.

Bydd disgwyl i chi hefyd gymryd rhan mewn ymchwil o ansawdd uchel a gweithgareddau ysgolheigaidd sy'n cyfrannu at flaenoriaethau strategol yr ysgol. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus oruchwylio ymchwil a lleoliadau myfyrwyr fel y bo'n briodol. Bydd gofyn i chi ymgymryd â gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig ag addysgu, rheoli rhaglenni a dyletswyddau eraill yn unol â chyfarwyddyd Deon yr Ysgol. Disgwylir ymgysylltiad â'r broses o recriwtio myfyrwyr a darparu cyngor ar gyfleoedd gyrfa. Bydd gofyn i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill o fewn yr ysgol gan gynnwys gweithgareddau arloesi.



## PROFFIL RÔL

*Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd y cydbwysedd dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.*

### **Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

#### ***Cymorth Addysgu a Dysgu***

- Cynllunio, datblygu a chyflwyno ystod o raglenni astudio (weithiau ar gyfer cyrsiau cwbl newydd) ar lefelau amrywiol.
- Adolygu'n rheolaidd gynnwys a deunyddiau'r cwrs, gan eu diweddarau pan fo angen.
- Datblygu a chymhwyso technegau a deunyddiau addysgu priodol sy'n creu diddordeb, dealltwriaeth a brwdfrydedd ymhlith myfyrwyr.
- Sicrhau bod cynllun a darpariaeth cyrsiau yn cydymffurfio â safonau ansawdd a rheoliadau'r brifysgol a'r adran.

#### ***Ymchwil ac Ysgolheictod***

- Arwain cynigion a phrosiectau ymchwil a/neu arloesi gyda'r potensial i greu incwm, rheoli canlyniadau prosiectau, cyflawni allbynnau a sicrhau effaith.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid y brifysgol i nodi ffynonellau cyllid ymchwil ac arwain y broses o sicrhau cyllid.
- Rheoli'r gwaith o gyflwyno prosiectau ymchwil unigol a/neu gydweithredol mewn pryd ac o fewn y gyllideb.
- Cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesedd yn ogystal ag ysgolheictod at ddysgu ac addysgu, a gweithgareddau allanol priodol. Arwain y broses o ddylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid a/neu allbynnau ymarferwyr, a/neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau academiaidd a/neu ymarferwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.

#### ***Cyfathrebu***

- Lledaenu syniadau cysyniadol a chymhleth i amrywiaeth eang o gynulleidfa.

## ***Cysylltu a Rhwydweithio***

- Arwain a datblygu rhwydweithiau mewnol er enghraifft drwy gadeirio a chymryd rhan mewn pwyllgorau Ysgol a Sefydliadol.
- Arwain a datblygu rhwydweithiau allanol, er enghraifft gydag arholwyr ac aseswyr allanol.
- Datblygu cysylltiadau â chysylltiadau allanol megis cyrff addysgol eraill, cyflogwyr, a chyrrff proffesiynol i feithrin cydweithio.

## ***Rheoli Pobl***

- Rhoi arweiniad academaidd i'r rhai sy'n gweithio o fewn meysydd rhaglen, drwy, er enghraifft, gydlynu gwaith eraill i sicrhau bod cyrsiau'n cael eu darparu'n effeithiol neu drefnu gwaith tîm drwy gytuno ar amcanion a chynlluniau gwaith gan gyfeirio at y Llawlyfr Academaidd.
- Cyfrannu at ddatblygiad timau ac unigolion.
- Gweithredu fel mentor personol i gyfoedion a chydweithwyr.

## ***Gwaith Tîm***

- Arwain timau o fewn meysydd cyfrifoldeb.
- Helpu i sicrhau bod timau o fewn yr adran yn gweithio gyda'i gilydd.
- Cymryd rhan i helpu i ddatrys gwrthdaro o fewn a rhwng timau.

## ***Gofal Bugeiliol***

- Bod yn gyfrifol am ymdrin â materion a gyfeirir ar gyfer myfyrwyr o fewn eu rhaglenni addysgol eu hunain.
- Rhoi cymorth llinell gyntaf i gydweithwyr, gan eu cyfeirio at ffynonellau o gymorth pellach os oes angen.

## ***Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau***

- Datrys problemau sy'n effeithio ar gyflwyno cyrsiau o fewn eich rhaglen addysgol eich hun ac yn unol â rheoliadau.
- Gwneud penderfyniadau o ran agweddau gweithredol eich rhaglen addysgol eich hun.
- Cyfrannu at benderfyniadau sy'n cael effaith ar raglenni cysylltiedig eraill.
- Rhoi cyngor ar faterion megis sicrhau cydbwysedd digonol o ran poblogaeth myfyrwyr, penodi a materion myfyrwyr a pherfformiad eraill.
- Sylwi ar gyfleoedd i ddatblygu cyrsiau newydd yn strategol neu feysydd gweithgarwch priodol a chyfrannu at ddatblygu syniadau o'r fath.

## ***Cynllunio a Rheoli Adnoddau***

- Bod yn gyfrifol am gyflwyno rhaglenni addysgol eich hun.
- Cyfrannu drwy'r timau yr ydych yn aelod ohonynt i reolaeth gyffredinol yr adran mewn meysydd fel rheoli cyllideb a chynllunio busnes.
- Cymryd rhan drwy lwybrau amrywiol mewn cynllunio strategol ar lefel adrannol a chyfrannu at brosesau cynllunio strategol y sefydliad.

- Cynllunio a chyflwyno rhaglenni ymchwil, ymgynghori neu raglenni tebyg o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.
- Cyfrannu at reoli ansawdd, archwiliadau ac asesiadau allanol eraill.

### ***Gofynion synhwyraidd, corfforol ac emosiynol.***

- Cydbwysu pwysau addysgu, ymchwil a gofynion gweinyddol a therfynau amser sy'n cystadlu.

### ***Amgylchedd Gwaith***

- Yn dibynnu ar faes gwaith (e.e. labordai, gweithdai, stiwdios) efallai y bydd disgwyl i chi gymryd cyfrifoldeb am gynnal asesiadau risg a lleihau peryglon.

### ***Arbenigedd***

- Mae'n ofynnol i chi fod yn awdurdod a gydnabyddir yn allanol yn y maes pwnc.
- Dealltwriaeth fanwl o'ch arbenigedd eich hun er mwyn gallu datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd o fewn y maes, a thrwy gymhwysiad.

### ***Hysbysiad Safonol***

**Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni'ch contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.**

**Derbynnir y bydd gan staff unigol sylfaen sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y maent wedi cael eu penodi iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd pob aelod o staff yn cyfrannu at weledigaeth ac ethos y Brifysgol ac yn ymddwyn mewn modd proffesiynol, cwrtais, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr/cwsmeriaid bob amser. Dylai pob aelod o staff roi sylw penodol i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**



**MANYLEB Y PERSON**

Teitl y Swydd: Uwch Ddarlithydd Plismona  
Proffesiynol

Ysgol/Uned: Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol  
Caerdydd

\*Allwedd

Ff - Ffurflen Gais  
C - Cyfweiliad  
P - Prawf

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESIR TRWY		
		Ff*	C*	P*
<b>Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)</b>	Gradd anrhydedd dda mewn pwnc perthnasol.	✓		
	Y gallu i ennill Statws Cymrawd fel rhan o Gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt (cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ac yn bendant cyn pen tair blynedd o ddechrau cyflogaeth).	✓	✓	
	Aelodaeth o gorff proffesiynol.	✓		
<b>Addysg a Chymwysterau (Dymunol)</b>	Statws Cymrawd fel rhan o Gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	✓		
	Cymhwyster lefel doethuriaeth a enillwyd.	✓		
<b>Gwybodaeth (Hanfodol)</b>	Gwybodaeth fanwl am blismona.	✓	✓	✓
	Dealltwriaeth fanwl o addysgeg.	✓		✓
	Dealltwriaeth fanwl o ymchwil/arloesi a gweithgarwch ysgolheigaidd.	✓		
<b>Gwybodaeth (Dymunol)</b>	Cydnabyddiaeth genedlaethol/rhyngwladol mewn pwnc arbenigol a maes proffesiynol.	✓		
	Gwybodaeth am raglenni addysgol o fewn lleoliad heddlu.	✓		✓

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESIR TRWY		
		Ff*	C*	P*
<b>Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r rôl (Hanfodol)</b>	Y gallu i gynllunio, datblygu a chyflwyno amrywiaeth o raglenni ar lefelau amrywiol.	✓		
	Y gallu i adolygu cynllun y rhaglen yn rheolaidd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â safonau ansawdd a rheoliadau academaidd ac er mwyn gwneud newidiadau lle y bo'n briodol.	✓		
	Y gallu i gyfrannu at gyflawni'r Cynllun Datblygu Ysgol a phrosesau cynllunio strategol y sefydliad.	✓		
	Y gallu i ddatblygu amcanion ymchwil, paratoi cynigion, gwneud ymchwil annibynnol, gweithredu fel canolwr a chyfrannu at asesu cyfoedion.	✓		
	Y gallu i nodi (drwy ddadansoddi gwybodaeth reoli briodol) feysydd lle mae angen gwell perfformiad e.e. niferoedd myfyrwyr, bodlonrwydd myfyrwyr.	✓	✓	
	Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amrywiaeth o ffyrdd – cyflwyniadau neu arddangosfeydd mewn cynadleddau cenedlaethol neu ryngwladol, adroddiadau ar ganfyddiadau, erthyglau cyfnodolion ac ati i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.	✓	✓	✓
	Y gallu i arwain a chyfrannu at ddatblygu timau er mwyn sicrhau perthynas waith effeithiol a chynhyrchiol.	✓	✓	✓
	Y gallu i arwain/datblygu/gweithio ar y cyd â nifer o rwydweithiau mewnol ac allanol, e.e. cymdeithasau proffesiynol, arholwyr allanol.	✓	✓	✓
Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol.	✓		✓	
<b>Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Dymunol)</b>				

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESIR TRWY		
		Ff*	C*	P*
<b>Profiad Taledig/Di-dâl (Hanfodol)</b>	Profiad o arweinyddiaeth strategol a gweithredol, fel arfer ar lefel arolygydd neu uwch, yn enwedig mewn plismona cymunedol/ymateb a rheoli digwyddiadau critigol.	✓	✓	✓
	Profiad amlwg o gynllunio'n effeithiol a gweithredu ystod o asesiadau ffurfiannol a chrynodol sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth yr heddlu.	✓		
	Profiad o ddarparu arweiniad academaidd a chymorth/mentora llinell gyntaf i gydweithwyr eraill.	✓		✓
	Profiad o gyfrannu at ddatblygu strategaethau academaidd, er enghraifft ymchwil a menter, addysgu a dysgu.	✓		
	Profiad o reoli perfformiad drwy osod, monitro ac adolygu amcanion.	✓		
<b>Profiad Taledig/Di-dâl (Dymunol)</b>	Profiad o addysgu AU neu'r hyn sy'n cyfateb iddo.	✓		
<b>Gofynion eraill (Hanfodol)</b>	Y gallu i asesu risg a gweithredu polisi/strategaeth mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd.	✓		
<b>Gofynion Eraill (Dymunol)</b>	Y gallu i siarad Cymraeg.	✓		